POLISI DERBYNIADAU YSGOL SANT CHAD YR EGLWYS YNG NGHYMRU, HANMER

Mae disgyblion yn cael eu derbyn i'r feithrinfa sy'n rhan o'n uned Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn academaidd y byddant yn bedair oed – h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n dair oed erbyn 31ain Awst ym mis Medi.

Caiff disgyblion ymuno â'r dosbarth derbyn yn y flwyddyn academaidd y byddant yn bump oed h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n bedair oed ym mis Medi.

Yn unol â'r Ddeddf Diwygio Addysg 1988 mae gofyn i'r AALl a'r Corff Llywodraethol dderbyn disgyblion hyd at y nifer safonol (sef 10 ar hyn o bryd) oni bai y byddai hyn yn anghyson â chadw natur nodedig yr ysgol.

Mae'r Llywodraethwyr wedi cytuno os yw nifer y ceisiadau yn uwch na'r nifer safonol y dylid dilyn y meini prawf canlynol yn ôl eu trefn:-

1) Y plant hynny sy'n byw o fewn plwyf eglwysig Hanmer

2) Brodyr neu chwiorydd y plant sydd eisoes yn yr ysgol (Derbyn – Blwyddyn 6)

2) Plant rhieni sy'n aelodau sy'n cymuno'n rheolaidd yn Sant Chad, Hanmer

3) Plant rhieni sy'n aelodau sy'n cymuno'n rheolaidd mewn unrhyw Eglwys arall yr Eglwys yng Nghymru.

4) Plant rhieni sy'n mynychu eglwys Gristnogol o enwad arall.

5) Plant eraill

Os bydd angen penderfynu rhwng dau gais neu fwy sy'n disgyn yn y categorïau uchod, yna defnyddir pa mor agos yw'r cartref i'r ysgol fel maen prawf.

Apeliadau

Os yw'r ysgol yn gwrthod derbyn y plentyn, mae gan y rhieni hawl i apelio (oni bai am lefel y feithrinfa gan nad yw'n statudol).

Dylid cyfeirio apeliadau at Gadeirydd y Llywodraethwyr.